Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bodffordd
# Canolfan Gymuned Bodffordd
# Llangefni
# Ynys Môn
# LL77 7LZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Mr W Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:
**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/05/2012**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn bodoli ers dros bum mlynedd ar hugain ac wedi'i leoli yng Nghanolfan y Gymuned Bodffordd sydd yn neuadd yr ysgol gynradd. Mae'r Cylch yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Bodffordd a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae hon yn ardal sy'n Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant.

Ym marn y lleoliad nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer fechan iawn o blant ag anghenion addysgol arbennig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i bedair mlwydd oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae pum plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan bron pob plentyn. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan ddwy ymarferydd llawn amser a dwy arall sy'n rhan-amser. Mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Ar ôl i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd y rhan fwyaf ohonynt yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Bodffordd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2012 a chan Estyn ym Mehefin 2006.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyffredinol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu diddorol a dychmygus yn annog plant i ddysgu'n effeithiol;
- cyfleoedd da iawn i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm;
- ansawdd yr addysgu yn gyson effeithiol a bod ymarferwyr gyda disgwyliadau uchel;
- cyfleoedd rheolaidd i blant ysgwyddo cyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu, a'r
- amgylchedd dysgu hynod o ddiddorol a grëir i blant ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y synnwyr cryf o ddiben a ddarperir gan yr arweinwyr yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol;
- arweinwyr yn adnabod y lleoliad yn drwyadl ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus;
- yr ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio; a
- bod ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol:

A2 ddarparu mwy o wybodaeth i rieni newydd am waith y lleoliad; a

A3 pharhau gyda'i ymdrech i sefydlu pwyllgor rheoli.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn arbennig o dda, yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Mae dysgu wedi eu seilio ar gynlluniau cwricwlaidd defnyddiol sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddychmygus iawn i sbarduno diddordeb plant a'u hannog i arbrofi â phrofiadau newydd. Caiff blant gyfleoedd mynych i wneud dewisiadau ynghylch dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae'r plant yn ymweld â'r gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad.

Trwy amrediad eang o weithgareddau megis chwarae rôl a gwrando ar storïau, caiff plant gyfleoedd da iawn i ddatblygu eu medrau lythrennedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gydlynus ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni. Darperir cyfleoedd o ansawdd uchel iddynt ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd da iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr i blant fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gynllunio manwl, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu hysgogi neu eu harwain gan oedolion. Mae'r amrywiaeth eang o strategaethau addysgu a ddefnyddir ynghyd â'r pwyslais sylweddol a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Yn ystod sesiynau, mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio holi yn grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur eu cynnydd. Yn ddiweddar, dechreuodd y lleoliad ddefnyddio deilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, ond nid yw'r arfer hon wedi'i datblygu'n llawn. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant o weithio yn yr ardal y tu allan ac yn yr ardd, yn cael effaith lesol ar eu datblygiad ysbrydol a chorfforol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o harddwch y byd o'u cwmpas. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr heddiw' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae dealltwriaeth dda gan yr ymarferwyr ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni

Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn effeithiol iawn ac yn galluogi'r plant hyn i wneud cynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd dysgu hynod o ddiddorol a grëir a'r cyfleoedd cyson a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus dros ben o'r ardal fechan y tu allan i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Caiff adnoddau yn y

gymuned leol eu defnyddio'n bwrpasol iawn i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae dwy ymarferydd ymroddedig a brwdfrydig yn rhannu cyfrifoldebau arweinyddiaeth y lleoliad. Llwyddodd y ddwy i greu ethos lle mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio’n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu’n llwyddiannus. Mae’r synnwyr cryf o ddiben a ddarperir gan yr arweinwyr yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli’n dda ac mae polisïau’r lleoliad yn cael eu gweithredu’n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur iawn o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni’n gydwybodol. Mae perthynas gyda phlant, rhieni a’r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu’n arwyddocaol i synnwyr o gymuned.

Mae disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel gyda’r arweinwyr yn cefnogi staff yn dda ac yn gosod her i bawb i wneud eu gorau. Mae gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff.

Er gwaethaf ymdrechion dygn yr arweinwyr, ni lwyddwyd i ddwyn perswâd ar ddigon o rieni i ffurfio pwyllgor rheoli. Yn y cyfamser, cyflawnir peth o swyddogaethau rheolaethol y lleoliad gan grŵp o wirfoddolwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn drylwyr a chydag anogaeth yr arweinwyr, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant.

Mae adroddiad hunan-arfarnu’r lleoliad o ansawdd da. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o’r wybodaeth ar gyfer llunio cynllun gweithredu a rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a’r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda iawn fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Mae cysylltiadau cryf rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd ac mae trefn glir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu a rhannu arferion da. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a'u cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Er hynny, mae'r pecyn gwybodaeth a dderbyniant ar fynediad eu plentyn i'r lleoliad yn rhy gyffredinol a phrin yw'r wybodaeth a roddir ynddo am natur profiadau dysgu eu plant.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant. Mae'r cydweithio da iawn gyda'r gymuned yn cyfoethogi gwybodaeth a phrofiadau dysgu'r plant yn sylweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli staff ac adnoddau. Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer cefnogi dysgu plant ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae'r trefniadau cynhwysfawr sydd ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr, yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |